YSGOL BRYNREFAIL

GWEITHGAREDDAU MOROL

Ar ddechrau mis Hydref fe aeth pob disgybl ym mlwyddyn 9 ar gwrs ar weithgareddau morol ym Mhlas Menai. Dyma bigion o adroddiadau'r disgyblion am yr wythnos a dreuliwyd ar y Fenai a Llyn Padarn :

"Cefais y cyfle ynghyd a 29 o ddisgyblion blwyddyn 9 i wneud gweithgareddau dwr ym Mhlas Menai ar ddechrau mis Hydref."

"Bues yn canŵio ar y Fenai am bum milltir un diwrnod. Yn ogystal â chanŵio ar y Fenai bues i lyn Padarn, Llanberis ac yn " 4 mile bridge". Cawsom lawer o hwyl ar Lyn Padarn ac yng ngherrynt "4 mile bridge".

"Dechreuodd pob bore gyda straffaglu i wisgo'r wisg dwr pwrpasol a'r rhain yn drewi!"

"Y rhan gorau i mi oedd cael towio ar gefn 'speedboat' a chael mynd o dan y ddwy bont".

"Cawsom ferch o'r Alban yn ein dysgu a gyda hi fe fuom yn hwylio ar draws y Fenai ".

" Llwyddodd pawb i basio lefel 2 mewn hwylio a derbyn tystysgrif i dystio hyn.

" Hoffwn ddiolch i Blas Menai ac i Mr P Holland am y cyfleu euraidd a'r wythnos wefreiddiol ar y dwr".